



# Llifogydd a Diogelu'r Amgylchedd

## Papur Testun 2 - Crynodeb Cyflwyniad

### Cyflwyniad

Er bod cynllunio a diogelu'r amgylchedd yn ddau fater gwahanol, mae cysylltiad rhyngddynt. Mae'r system gynllunio'n rheoli lle y gellir datblygu a pha weithrediadau defnyddio tir y gellir ymgymryd â nhw ac, felly, mae gan y system ran bwysig yn y broses o osgoi neu leihau effeithiau unrhyw beryglon amgylcheddol ar y modd y defnyddir tir ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol. Mae angen rhoi sylw arbennig hefyd i leihau a rheoli'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd drwy sicrhau y gellir addasu unrhyw ddatblygiadau newydd a'u bod yn gallu gwrthsefyll newidiadau yn y dyfodol.

### Y Cyd-destun

Mae'r cyd-destun ehangach ar gyfer llifogydd a rheoli'r amgylchedd wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru. Dyma amcanion Llywodraeth Cymru:

- Diogelu'r amgylchedd cystal ag y bo modd er budd pobl, adnoddau naturiol a diwylliannol, eiddo a seilwaith
- Atal neu reoli llygredd a hyrwyddo arfer amgylcheddol da.

Wrth gyflawni'r amcanion hyn mae'n hanfodol bod y system gynllunio'n gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â chyrrff rheoleiddio eraill fel Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Bydd angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol felly wrth ystyried rhai ceisiadau cynllunio mewn perthynas

â datblygiadau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod asesiadau ar lefel uwch yn cael eu cynnal o dan y Cynllun er mwyn sicrhau na fydd polisïau a chynigion yn arwain at niwed amgylcheddol ac y gwneir hyn drwy gyfrwng Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

Mae'r Sir yn amrywio o ran ei chyfansoddiad ffisegol, cymdeithasol ac economaidd ac ynghlwm wrth hyn mae problemau penodol yn ymwneud â llifogydd a'r amgylchedd. Mae llawer o'r ardal arfordirol ar hyd yr A548, yn ogystal â Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Sealand yn dir isel ac mae llifogydd yn bosibl yno, ond mae ardaloedd tebyg ar lannau rhai o'r prif afonydd hefyd fel yr aneddiadau ar hyd Afon Alun. Mae ardaloedd eraill hefyd lle mae llifogydd yn bosibl naill ai oherwydd bod afonydd yn gorlifo neu oherwydd dŵr wyneb neu broblemau draenio. Mae Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Pharc Diwydiannol Penarlâg yn allweddol i economi Cymru ac yno, mae amrywiaeth eang o brosesau diwydiannol yn mynd rhagddynt. Mae hen ardaloedd diwydiannol y Sir wedi gadael problemau sy'n gysylltiedig â thir halogedig. Mae gan y Sir hefyd waddol mwyngloddio sydd wedi creu tir ansefydlog. Mewn rhannau o'r Sir, mae'r gwaddol hwn wedi arwain at dirlenwi yn y gorffennol ac sy'n parhau

Mae'r Sir hefyd yn goridor trafniadaeth strategol ac mae'r A494 a'r A55 yn byrth allweddol i'r Gogledd. Golyga hyn fod traffig trwm yn teithio drwy'r Sir, yn ogystal â thraffig lleol, a gall hyn

greu problemau o ran ansawdd aer. Mae dŵr yfed rhannau o Ogledd-ddwyrain Cymru a Swydd Caer yn tarddu o Afon Dyfrdwy ac mae'n hanfodol bod ansawdd y cyrsiau dŵr a'r cyrff dŵr drwy'r Sir a'r tu hwnt yn cael eu cynnal a'u gwella. Mae problemau eraill yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd yn cynnwys llygredd sŵn a golau.

At ei gilydd, mae'r materion hyn yn creu cryn her wrth baratoi'r Cynllun Datblygu a hynny oherwydd maint a dosbarthiad unrhyw dwf a datblygiad. Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn ychwanegu at y problemau hyn gan fod y Sir yn wynebu bygythiadau newydd a chynyddol, yn enwedig o ganlyniad i lifogydd - p'un a ydynt i'w priodoli i batrymau tywydd mwy eithafol ynteu newidiadau yn llanw'r môr. Serch hynny, rydym yn dysgu mwy o hyd am y peryglon ac mae'n hanfodol bod polisïau a chynigion y Cynllun wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn a dibynadwy.

## Rôl y Cynllun

Sicrhau bod datblygiadau'n ystyried llifogydd ac amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd yn ogystal ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

**Llifogydd** - Wrth baratoi'r Cynllun rhaid ystyried tebygolrwydd llifogydd yn ogystal â chanlyniadau llifogydd o ran cyflymder a dyfnder. Wrth wneud hynny, mae angen i'r system gynllunio symud oddi wrth amddiffyn tir rhag llifogydd a lliniaru canlyniadau datblygiadau newydd, a cheisio osgoi datblygu mewn ardaloedd sydd wedi'u diffinio'n ardaloedd lle mae llifogydd yn bosibl. Dylid mabwysiadu agwedd ragofalus wrth baratoi polisïau cynllunio h.y. ar y sail bod y newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu'r perygl y bydd llifogydd arfordirol a llifogydd afonydd oherwydd bod lefel y môr yn codi ac oherwydd glaw trwm.

Dylid mabwysiadu agwedd strategol tuag at beryglon llifogydd drwy ystyried y dalgylch yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad newydd yn agored i lifogydd yn ddiangen, ar ôl ystyried effeithiau cronrus y

datblygiad. At hyn, ni ddylai unrhyw ddatblygiad newydd wneud llifogyff yn fwy tebygol yn rhywle arall. Rhaid cydnabod nad yw'r amddiffynfeydd llifogydd a gaiff eu hadeiladu i ddiogelu datblygiadau'n debygol o fod yn gynaliadwy yn y tymor hir, yn enwedig gan fod adnoddau Llywodraeth Cymru wedi'u cyfeirio at ddiogelu datblygiadau sy'n bod eisoes yn hytrach na datblygiadau yn y dyfodol. Wrth baratoi'r cynllun datblygu, bydd angen ystyried lleoliadau rhai mathau arbennig o ddatblygiadau, yn enwedig datblygiadau yn ardaloedd C1 a C2 lle mae llifogydd yn bosibl.

**Tir ansefydlog a halogedig** - dylai'r system gynllunio lywio datblygiadau i leihau unrhyw fygythiad sy'n seiliedig ar beryglon naturiol neu beryglon a grëwyd gan ddyn, gan gynnwys y perygl sy'n gysylltiedig â thir ansefydlog a thir halogedig. Y nod yw sicrhau bod datblygiad yn addas ar dir o'r fath ac yr ystyrir y cyfyngiadau ffisegol, gan gynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (gan gydnabod mai cyfrifoldeb y datblygwr yw hyn).

O ran tir halogedig, bydd angen i'r Cynllun ystyried y canlynol:

- Dim ond os oes dealltwriaeth o'r peryglon y gellir datblygu o'r newydd
- Ni chaniateir neu ddyrannu datblygiadau oni bai bod mesurau lliniaru ar waith
- Rhaid sicrhau bod dealltwriaeth o effeithiau'r mesurau lliniarol ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.

O ran tir ansefydlog rhaid i'r cynllun datblygu sicrhau'r canlynol:

- Ni chaniateir datblygiadau newydd heb ddealltwriaeth o'r peryglon
- Ni chaniateir datblygiadau heb y rhagofalon priodol
- Ni chaniateir datblygiadau os bydd angen prosiectau peirianyddol y byddai'n rhaid talu amdanynt o'r pwrs cyhoeddus.
- Caiff tir ansefydlog ei adfer i ddiogelu buddsoddiad ac, os yw'n ymarferol, dylid ei adfer at ddefnydd cynhyrchiol eto.

**Ansawdd aer a dŵr** – Dylai'r system gynllunio bennu a yw datblygiad yn ffordd dderbyniol o ddefnyddio tir a dylai hefyd ystyried pa mor agos ydyw at ffynonellau llygredd posibl. Wrth ymarfer y swyddogaeth gynllunio, dylai'r Cyngor dybio y caiff y systemau rheoli llygredd perthnasol eu defnyddio a'u gorfodi'n briodol, ac ni ddylai geisio dyblygu'r systemau rheoli hynny. Bydd angen i'r cynllun datblygu ystyried effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig, a'r galw cysylltiedig o ran trafndiaeth, ar ansawdd aer a dŵr ac ystyried hefyd effaith bosibl ansawdd aer a dŵr ar ddatblygiadau arfaethedig. Mae'n bosibl y bydd y Cynllun yn ceisio rheoli lleoliad datblygiad os oes posibilrwydd y gall greu llygredd a dylai osod meini prawf i'w defnyddio wrth eu hasesu. Bydd angen i'r Cynllun gynnwys polisïau i sicrhau bod dulliau anghydnaws o ddefnyddio tir yn cael eu trin ar wahân, er mwyn lleihau unrhyw wrthdaro posibl. Gellir sicrhau bod darpariaeth realistig yn y Cynllun ar gyfer y mathau o ddatblygiad a allai amharu ar amwynder, buddiannau gwarchodaeth neu ddatblygiad a allai greu llygredd.

**Llygredd Sŵn a Golau** – Gall sŵn effeithio ar iechyd a lles pobl a chael effaith uniongyrchol ar fywyd gwyllt ac amwynderau lleol. Dylai'r system gynllunio geisio lleihau allyriadau a sicrhau nad yw sŵn yn yr amgylchedd yn codi uwchlaw lefel dderbyniol. O ran golau, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ddarparu golau i ddiogelu'r cyhoedd, i helpu i atal trosedd, ac i ganiatáu i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a'r angen i:

- Ddiogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol
- Cadw'r awyr yn dywyll lle mae hynny'n briodol
- Atal golau rhy lachar a pharchu amwynder tiroedd cyfagos
- Lleihau allyriadau carbon cysylltiedig â golau.

Dylai'r cynllun datblygu ystyried y ffactorau a ganlyn:

- Dylid cynllunio datblygiadau y byddai sŵn yn amharu arnynt (ysbytai, ysgolion, tai) ond y mae angen eu lleoli'n agos at y seilwaith trafndiaeth presennol, mewn modd sy'n cyfyngu ar lefelau sŵn
- Dylid lleoli datblygiadau y byddai sŵn yn amharu

arnynt ymhell oddi wrth safleoedd swnllyd presennol (meysydd awyr, rhai gweithgareddau diwydiannol neu waith seilwaith mawr)

- Cyhyd ag y bo modd, dylid lleoli datblygiadau a allai fod yn swnllyd mewn ardaloedd lle na fydd sŵn yn ystyriaeth mor bwysig neu lle gellir lleihau lefel y sŵn.
- Dylid creu polisïau i reoli llygredd golau y bydd unrhyw ddatblygiad newydd yn ei greu

## Cynlluniau a Strategaethau Allweddol

### Llifogydd:

- Cyfarwyddeb CE 2007/60
- Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009)
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 6 ( Chwefror 2014)
- TAN 15 Datblygu a Pherylgl Llifogydd (2004)
- TAN14 Cynllunio Arfordirol (1998)
- Mapiau Cyngor Datblygu
- Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Sir y Fflint (2014)
- Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Glannau Dyfrdwy (2010)
- Cynllun Rheoli Traethlin Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru 2 (2010)
- Strategaeth Rheoli Dŵr Wyneb Cymru

### Ansawdd Dwr

- Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr CE (2000/60)
- Rheoliadau'r Amgylchedd Dwr (Cyfarwyddeb y Fframwaith Dwr) (2003)
- Cynlluniau Rheoli Basn Afon

### Ansawdd Aer

- Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (2000)
- Strategaeth Ansawdd Aer Lloegr, yr Alban a Chymru (2007)

### Sŵn

- Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (2006)
- Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Nodi Ffynonellau

Sŵn) (Cymru) 2007

- TAN11 Sŵn
- TAN12 Dylunio
- Mapio Sŵn Cymru
- Cynllun Gweithredu Drafft Sŵn Cymru

### **Golau**

- TAN12 Dylunio
- Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005

### **Tir Halogedig**

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995)

### **Materion i'r Cynllun ymdrin â nhw**

- Deall perygl llifogydd yn y Sir (Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd – Rhan 1) [y môr, afonydd a tharddiadau lleol]
- Asesu 'ardaloedd chwilio' a safleoedd datblygu posibl o safbwynt llifogydd (Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd - Rhan 2) [y môr, afonydd a tharddiadau lleol]
- Deall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
- Nodi prif ardaloedd / ffynonellau llygredd o ran safleoedd datblygu posibl (llygredd, sŵn, ansawdd aer a dŵr etc)
- Nodi'r cyfyngiadau ffisegol sy'n atal datblygiadau o ran tir halogedig ac ansefydlog (gan ystyried y 'Drefn Chwilio am Safleoedd' ym Mholisi Cynllunio Cymru a rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio safleoedd tir llwyd)
- Ymdrin â llygredd sŵn a golau drwy fesurau dylunio
- Ymdrin ag effeithiau ar yr amgylchedd dŵr drwy dynnu dŵr (gweler y papur 'Seilwaith')
- Cynllunio datblygiadau i leihau dŵr wyneb sy'n llifo ac i ddefnyddio llai o ddŵr.
- Cynllunio datblygiadau fel bod modd eu haddasu ac fel eu bod yn gallu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol
- Sicrhau bod modd trin dŵr gwastraff neu y bydd modd gwneud hynny i hwyluso datblygiad newydd

### **Polisïau / cynigion posibl yn ymwneud â defnyddio tir**

Yn y CDU, mae Pennod 17, yn ymwneud ag Ynni, Gwastraff a Llygredd yn cynnwys polisïau'n ymwneud â llygredd, sŵn a golau, tir halogedig a diffaith, tir ansefydlog, perygl llifogydd ac adnoddau dŵr. Cynigir y dylid cadw ac adolygu strwythur cyffredinol y polisïau hyn ac y dylid ystyried symleiddio'r polisïau os oes canllawiau polisi ar gael yn rhywle arall. Dyma restr bosibl o'r polisïau allweddol:

- Perygl llifogydd
- Adnoddau Dŵr (gweler y papur 'Seilwaith')
- Llygredd, sŵn a golau
- Tir diffaith, halogedig ac ansefydlog
- Ansawdd dylunio